



Darllenwch yr adroddiad llawn



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

Arloesi i Gymru ym maes Technoleg Feddygol

Amodau ar gyfer ecosystem iach i arloesi ym maes technoleg feddygol

Cyfarfu arbenigwyr o'r byd academiaidd, y GIG, diwydiant a'r llywodraeth ym mis Medi 2024 i ddatblygu'r weledigaeth hon o ecosystem arloesi ar gyfer technoleg feddygol. Byddai'r ecosystem honno'n creu buddion iechyd, gwerth am arian a thwf economaidd i Gymru.

Systemau



METHU YN GYFLYM

Wrth arloesi, mae cyfradd fethu o 80% yn dda! Mae ar wasanaeth iechyd modern angen systemau sy'n rheoli methiant fel rhan o'r broses arloesi, yn hytrach na'i gosbi.



DRWS BLAEN AR GYFER ARLOESI

Mae angen i glinigwyr ac ymchwilyr arloesol wybod ble i gynnig syniad da yn y cyfnod cynnar, gan eu cyfeirio at adnoddau, cyfleoedd, risgiau a'r camau nesaf.



CYLLID CYDGYSYLLTIEDIG AR GYFER Y TYMOR HIR

Bydd rhannu gallu ar raddfa genedlaethol yn fodd i arbed costau a hefyd yn creu datblygiadau arloesol mwy uchelgeisiol a chystadleuol. Mae cyllid hirdymor hefyd o gymorth i gadw talent.



LLYWODRAETHU'N DDOETH O RAN ARLOESI

Byddai dod yn fwy cyfarwydd â deddfwriaeth y gwasanaeth iechyd yn cynyddu'r hyder i fentro a rhoi cynnig ar ddulliau newydd. Bydd symleiddio trefniadau llywodraethu yn creu llwybr i arloesi.

Diwylliant a Thalent



MAE SICRWYDD SWYDDI YN MEITHRIN ARLOESI

Mae contractau parhaol ar gyfer ymchwilyr ar ddechrau eu gyrfa yn helpu i gadw talent, ac yn galluogi timau ymchwil i fod yn fwy ystwyth wrth gydweithio â diwydiant.



AMSER I ARLOESI

Mae mewnwelediadau a syniadau clinigwyr yn hanfodol ar gyfer arloesi. Mae angen gwarchod amser i arloesi drwy ei gynnwys mewn swydd-ddisgrifiadau ac amcanion.



LLYTHRENNEDD DIWYDIANNOL

Mae angen i academyddion a chlinigwyr ymglyfarwyddo'n fanwl â'r modd y mae diwydiant yn gweithredu. Mae angen cydnabod y gefnogaeth werthfawr y gallant ei chynnig i fusesau.



ENNYN YMDDIRIEDAETH

Mae agweddau staff a chleifion yn cael effaith sylweddol ar y defnydd o ddatblygiadau arloesol. Gall diffyg ymddiriedaeth olygu bod gwaith y sector cyhoeddus yn cael ei ddyblygu a chreu aneffeithlonrwydd o ran costau.